



Dyddiad: 09/12/2025

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn ganolog i'r newid hwn, gan ddod â phartneriaid at ei gilydd i ddylunio gwasanaethau o amgylch yr hyn sy'n bwysicaf i bobl. Trwy gydweithredu ac arloesi, mae'r BPRh yn gyrru gwelliannau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn lleol.

The map displays the seven local government regions of Wales, each labeled with its name in Welsh. The regions are color-coded: North Wales (BPRh Gogledd Cymru) in dark green, Central Wales (BPRh Powys) in light green, West Wales (BPRh Gorllewin Cymru) in medium green, South Wales (BPRh Morgannwg) in dark green, South East Wales (BPRh Gwent) in dark green, South West Wales (BPRh Gogledd Cymru) in dark green, and the Cardiff region (BPRh Caerdydd) in light green. The map also shows the surrounding sea and the English border.

BPRh Gwent

Bwrdd Partneriaeth
Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal
Cymdeithasol




Powys Regional
Partnership Board
Health and
Social Care

Bws siopa yn darparu llinell achub i gymunedau gwledig

Yn Llanwrtyd mae cyflwyno'r bws siopa cymunedol wedi'i sefydlu i gefnogi trigolion a oedd yn cael trafferth gyda mynediad i drafnidiaeth. Mae hyn wedi darparu cyfleoedd i drigolion mewn ardaloedd gwledig adael y tŷ a chynnal eu hannibyniaeth, tra hefyd yn mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd.

Mae'r bws yn gwasanaethu ardal canolbarth Powys ac erbyn hyn mae rhestr aros o drigolion sydd â diddordeb yn ei defnyddio. Oherwydd ei lwyddiant, mae cynlluniau ar y gweill i ehangu nifer y diwrnodau gwasanaeth a maint y bws sy'n cael ei ddarparu.

Derbyniodd y prosiect gyllid cychwynnol o £37,369 gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun ac wedi derbyn cyllid pellach o £100,000 gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer darparu bws newydd, ynghyd â chostau rhedeg dros gyfnod o flwyddyn.



Wrth i'r ddefnydd gynyddu, mae'r newyddion wedi lledaenu ar draws canolbarth Powys gyda'r galw yn parhau i gynyddu. Hyd yn hyn, mae'r bws wedi'i ddefnyddio 744 o weithiau gan ofyn i ddefnyddwyr dalu dim ond £2 am y daith.

Ers cyflwyno'r gwasanaeth, dywedodd 93% o ddefnyddwyr eu bod yn teimlo'n llai ynysig. Mae 100% wedi nodi bod y gwasanaeth wedi atal cynnydd mewn angen ac mae'r bws hefyd wedi meithrin ysbryd cymunedol, gan feithrin cyfeillgarwch a chysylltiad cymdeithasol dyddiol rhwng defnyddwyr.

Mae'r gwasanaeth hyd yn oed wedi helpu at achub bywyd pan drodd galwad ffôn a gollwyd yn wiriad lles. Cafwyd hyd i'r unigolyn wedi cwympo ond ers hynny mae wedi gwella ac mae'n parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Cludiant Cymunedol Llanwrtyd





BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO

CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Yn Gryfach Gyda'n Gilydd: Cynhadledd Flynyddol RPB Caerdydd a'r Fro

Gwnaeth cynhadledd flynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, *Yn Gryfach Gyda'n Gilydd: Dathlu Ein Partneriaeth* groesawu tua 250 o gynrychiolwyr o bob cwr o iechedd, gofal cymdeithasol, tai, addysg, y trydydd sector a chymunedau profiad bywyd i'r **Deml Heddwch, Caerdydd, ar 16 Mai 2025**. Creodd y diwrnod ofod ysbrydoledig i fyfyrion ar gynnydd, rhannu dysgu, a dathlu cyflawniadau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau RPB ledled Cymru.

Roedd y rhaglen yn cynnwys anerchiadau allweddol gan uwch arweinwyr, sesiwn Holi ac Ateb agored, gweithdai rhyngweithiol, marchnad fywiog, a seremoni wobrwyo gyffrous —a'r cyfan wedi'i lunio gan y weledigaeth a rennir o helpu pobl i aros yn iach, wedi'u cysylltu, a chael eu cefnogi'n agosach at gartref.

Drwy gydol y dydd, roedd ymdeimlad cryf o bositifrwydd a phartneriaeth.

Gwnaeth eitemau cerddorol gan Opera Cenedlaethol Cymru ychwanegu dimensiwn dynol a chreadigol i'r digwyddiad, a gwnaeth yr adborth a gafwyd grynhoi egni'r diwrnod: “digwyddiad gwych,” “credyd go iawn i'r tîm,” “rhwydweithio gwych,” a “phrofiad gwirioneddol galonogol.”

Archwiliodd y gweithdai themâu sy'n berthnasol iawn i RPBs ledled Cymru, gan gynnwys grymuso cymunedau, datblygu gofal cyson sy'n seiliedig ar glystyrau, cryfhau ymateb i argyfyngau, cefnogi plant a phobl ifanc, a datblygu partneriaethau aml-broffesiynol. Roedd y farchnad yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o arloesi mewn meysydd blaenoriaeth fel Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda, ac roedd hefyd yn arddangos Galluogwyr i weithio mewn partneriaeth fel technoleg ddigidol.

Yn hollbwysig, er bod y digwyddiad yn canolbwyntio ar Gaerdydd a'r Fro, mae ei themâu'n adleisio gwaith sy'n digwydd ar draws pob RPB yng Nghymru. O gymunedau sy'n gyfeillgar i ddementia a chymorth iechedd meddwl ieuencid, i arloesi digidol mewn gofal cynorthwyol a gwasanaethau argyfwng





cydgysylltiedig, mae partneriaid ledled y wlad wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau sy'n fwy integredig, dan arweiniad y gymuned, ac yn canolbwyntio ar atal. Mae'r dysgu hwn a rennir o fudd i bawb, gan sicrhau y gall mentrau arloesi mewn un rhanbarth lywio ac ysbrydoli eraill.

Mae gwranddo ar adborth yn allweddol i wneud cynadleddau yn y dyfodol hyd yn oed yn gryfach. Mae RPB Caerdydd a'r Fro eisoes yn casglu myfyrdodau gan gynrychiolwyr i lywio'r digwyddiad nesaf — gan gynnwys galwadau i gynyddu lleisiau profiadau bywyd, dyfnhau'r ffocws ar gynhwysiant digidol, cefnogi dysgu ar draws yr RPB, a chyflwyno themâu sy'n dod i'r amlwg fel gofal cymunedol, cynllunio ar gyfer trosglwyddo, a heneiddio'n dda. Y nod yw creu cynhadledd hyd yn oed yn fwy cynhwysol, perthnasol ac effeithiol y flwyddyn nesaf.

Yn y pen draw, mae hyn yn ymwneud â mwy nag un digwyddiad: mae'n llwyfan i bob RPB yng Nghymru gryfhau cydweithio, rhannu'r hyn sy'n gweithio, a pharhau i symud ymlaen. Drwy gydweithio ar draws ffiniau rhanbarthol a chenedlaethol, gallwn barhau i gyflymu cynnydd tuag at ein nodau cyffredin o greu cymunedau mwy gwydn a galluogi pobl i fyw'n well ac yn agosach at gartref.

Mae rhagor o wybodaeth fanwl am y digwyddiad, gan gynnwys sleidiau gweithdai a bywgraffiadau siaradwyr ar gael ar ein gwefan:

[Yn Gryfach Gyda'n Gilydd – Dathlu ein Partneriaeth – RPBCAF](#)

Anogir partneriaid RPB ledled Cymru i gyfrannu syniadau ar gyfer llunio cynhadledd y flwyddyn nesaf. I roi adborth ar ddigwyddiad 2025, cwblhewch arolwg cynhadledd Caerdydd a'r Fro yma: <https://forms.office.com/e/AmXbPrJ2UY>

Ar hyn o bryd rydym yn cynllunio cynhadledd 2026!! Os hoffech fod yn rhan o'r tîm cynllunio ar gyfer y Gynhadledd neu os oes gennych rai meddyliau yr hoffech eu rhannu, cysylltwch â ni hsc.integration@wales.nhs.uk





Cwm Taf Morgannwg
Partneriaeth | Regional
Rhanbarthol | Partnership

Strategaeth Newydd Cwm Taf
Morgannwg yn anelu at lunio dyfodol
tecach, mwy cyfartal i blant a
theuluoedd

Mae Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (CTM) wedi lansio *System Gyfan: Calon Gyfan*, strategaeth bum mlynedd newydd i wella bywydau babis, plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw ar draws Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful.

Gyda babis, plant a phobl ifanc yn CTM yn wynebu canlyniadau gwaeth nag mewn sawl rhan o Gymru, mae *System Gyfan: Calon Gyfan* yn ymrwymiad ar y cyd i weithio fel un system gysylltiedig i newid tueddiadau a thaclo'r heriau cymhleth sy'n llunio'u bywydau.

Mae'r strategaeth yn amlinellu wyth uchelgais i gynnal hawliau plant, pobl ifanc a theuluoedd – gan sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd, cefnogaeth yn yr ysgol, cartrefi diogel, a llesiant meddwl da.

A hwythau wedi'u llunio drwy gyfrwng gweithdai rhanbarthol ac ymgysylltu â babis, plant, pobl ifanc a theuluoedd, nod yr uchelgeisiau hyn yw adeiladu cymunedau cryf, cysylltiedig sy'n meithrin gwytnwch a llesiant, dan arweiniad gwerthoedd sy'n rhoi plant wrth galon penderfyniadau a chynllun y gwasanaeth.

Lansiwyd *System Gyfan: Calon Gyfan* yn swyddogol ar 21 Tachwedd 2025 gyda thros 100 o weithwyr proffesiynol o bob cwr o fyd ieched a'r system ofal cymdeithasol yn bresennol, yn ogystal â phlant a rhieni.

Fe wnaeth mynychwyr gymryd rhan mewn gweithdai oedd yn cefnogi dysgu ar y cyd a myfyrion onest ar sut orau i gydweithio i daclo anghydraddoldebau. Defnyddiwyd egwyddorion fframwaith NYTH / NEST ("rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel a Hybu / Nurturing, Empowering, Safe and Trusted"), ac roedd themâu'n cynnwys rhannu data, cyd-gynhyrchu, pontio, cymuned a bod gyda'n gilydd.



Rhoddwyd areithiau gan Rocio Cifuentes Comisiynydd Plant Cymru a Sarah Murphy AS: Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ategu'r strategaeth, gan ganmol ei botensial i yrru gwir bartneriaeth a chyd-gynhyrchu er mwyn llunio dyfodol mwy llachar i blant.

Plant a theuluoedd oedd wrth galon y dydd. Daeth eu lleisiau drwodd mewn perfformiad grymus gan y cwmni a leolir yn y Rhondda, Spectacle Theatre, ac mewn gweithdy rhyngweithiol gyda'r Comisiynydd Plant.

Fe wnaeth [ffilm deimladwy](#) oedd yn cynnwys babis, plant, pobl ifanc, a rhieni, ddod â'r rheswm pam y mae *System Gyfan: Calon Gyfan* yn cyfri.

Yn ôl Ryan, sy'n seren y ffilm: “pe bai pobl ifanc yn gyfartal, byddai ein lleisiau'n gryfach.”

Yn ei haraith glo, pwysleisiodd y Cyngorydd Jane Gebbie, Cadeirydd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg, fod trawsnewid gwirioneddol yn dibynnu ar fod yn atebol, cael perthynas gref â'n gilydd, ac ymddiriedaeth.

Dywedodd y Cyngorydd Gebbie:

“Mae heddiw'n braf ein bod ni, wrth ddod ynghyd, ar draws ffiniau, ar draws rolau, ar draws profiad byw, yn gallu creu rhywbeth grymus.”

Darllenwch ein strategaeth lawn [yma](#).

Gwylwch ein ffilm yma: [Lansio System Gyfan: Calon Gyfan](#)

I gael mwy o wybodaeth ewch i'n tudalen we: <https://ctmregionalpartnershipboard.co.uk/cy/childrenstrategy/> neu e-bostiwch Stacy Chamberlain stacey.chamberlain@rctcbc.co.uk





Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional
Partnership Board

Cartref Gofal Parc Severn View yn ennill Gwobr MacEwen 2025

Mae cartref gofal o'r radd flaenaf Cyngor Sir Fynwy yng Nghil-y-coed wedi ennill Gwobr fawreddog RIBA MacEwen 2025.

Mae'r wobr yn ddathliad o bensaernïaeth sydd er lles pawb – yn dathlu prosiectau sy'n dangos parodrwydd y pensaer a'r cleient i wthio ymylon dylunio ac ymarferoldeb.

Wedi'i ddylunio gan Pentan Architects a'i adeiladu gan Lovell, agorodd y cartref gofal ei ddrysau ym mis Mawrth 2024. Cafodd ei ariannu drwy bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Fynwy a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, a hynny drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Tai â Gofal.

Gan weithio'n agos gyda'r penseiri a'r datblygwyr, chwaraeodd Colin Richings, Rheolwr Gwasanaeth Integredig Cyngor Sir Fynwy, rôl hanfodol wrth ddatblygu'r cartref gofal. Drwy gydol datblygiad saith mlynedd Parc Severn View, roedd ei athroniaeth yn gyson: caniatáu i bobl fyw yn dda gyda dementia. Arweiniodd hyn at greu cartref ag ymdeimlad o gynefindra i'r holl breswylwyr.

Nod cynllun y cartref gofal yw cefnogi pobl â dementia.

Mae drysau blaen yn agor yn uniongyrchol i'r mannau byw, gan hyrwyddo ymdeimlad o gysur, yn wahanol i'r ddesg dderbynfa arferol a gosodiadau swyddfa. Gyda phedwar preswylfa, pob un yn gartref i wyth o breswylwyr, mae'r cartref gofal wedi'i ganoli o amgylch neuadd bentref newydd ar gyfer y gymuned dai newydd, gyda gerddi a rhandiroedd yn creu mannau a rennir i bawb.

Wedi'i leoli ar ddatblygiad tai newydd Heol Crug, mae Cartref Gofal Parc Severn View yn cynnal cysylltiadau â'r gymuned gyfagos. Wrth greu cyfleoedd i drigolion trwy ddigwyddiadau a mannau a rennir, gall trigolion gynnal ymdeimlad o hunaniaeth a chynhwysiant personol.

Ynghyd â'r dyluniad arloesol, mae'r cartref gofal ar flaen y gad o ran datblygu arferion gorau mewn gofal. Drwy gydol y dydd, mae'r staff yn sicrhau bod yr holl breswylwyr yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.

Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Sir Fynwy dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch, y Cynghorydd Ian Chandler: “Mae Cartref Gofal Parc Severn View ar flaen y gad o ran gofal. Diolch i Pentan Architects a Lovell, mae’r cartref yn rhoi cyfle gwych i staff arloesi sut mae gofal yn cael ei ddarparu. Mae’r cartref gofal yn gaffaeliad go iawn o fewn ein portffolio gofal cymdeithasol; ynghyd â’i ddyluniad gwych, mae staff yn gwneud hwn yn gartref byw sy’n gysylltiedig â’r gymuned go iawn ar gyfer y gymuned.”

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Jayne Bryant: “Pan oeddwn wedi ymweld â Chartref Parc Severn View y llynedd, gwnaeth y gwaith a wnaed i greu gofod mor hardd i ddarparu byw’n annibynnol a gofal dementia arbenigol yn y gymuned argraff fawr arnaf. Mae’n wych gweld y cartref gofal arloesol hwn yn cael cydnabyddiaeth mor fawreddog ac rwyf mor falch ein bod wedi gallu cefnogi’r prosiect drwy ein Cronfa Gofal Integredig a’n Cronfa Tai â Gofal.”

Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth “Rydym yn ddiolchgar am y cymorth ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi gwneud y cynllun darpariaeth dementia blaenllaw hwn yn realiti, nid yn unig fel esiampl i Went ond hefyd o ran rhannu arferion gorau ledled Cymru. Gyda’n gilydd, mewn partneriaeth, rydym wedi gweithio ar y cyd â chymunedau, sefydliadau ac arbenigwyr i sicrhau newid parhaol, ystyrlon, i’r rhai yr effeithir arnynt gan ddementia. Llongyfarchiadau i bawb sy’n ymwneud â’r prosiect hwn.”





BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU NORTH WALES REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia Gogledd Cymru

Mae'r daith i greu cymunedau sy'n deall dementia ledled Gogledd Cymru wedi dechrau ers tro. Mae'r Mae Cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia yn ymwneud â helpu i ddatblygu cymunedau sy'n dosturiol, yn gynhwysol ac yn gydnerth i bobl sy'n byw gyda dementia, a hefyd i gynorthwyo eu ffrindiau, eu teuluoedd a'u gofalmwyr di-dâl i gynnal cysylltiadau, a byw yn dda yn eu hardaloedd lleol. Lansiodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Gogledd Cymru Gynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia Gogledd Cymru ar 1 Ionawr 2024. Mae'r fenter hon yn adeiladu ar waith gwerthfawr Cymdeithas Alzheimer, y mae ei chynllun bellach wedi dod i ben, ac mae'n golygu cydweithio â chwe chynghor lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, busnesau lleol, ac elusennau.

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC) wedi gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygiad y cynllun, gan rannu arbenigedd o'u prosiect Sir Ddinbych Ymwybodol o Ddementia i gynorthwyo cynghorau eraill a hyrwyddo'r fenter ar draws y rhanbarth.

Dywedodd Rebecca Bowcot, Sir Ddinbych Ymwybodol o Ddementia, DVSC:

"Mae codi ymwybyddiaeth o ddementia ledled Sir Ddinbych wedi bod yn ffordd wych o rymuso unigolion a chymunedau i weithredu er mwyn helpu pobl y mae dementia

yn effeithio arnynt yn eu cymunedau lleol. Mae'n hynod werth chweil gweld pobl yn dod at ei gilydd i gyflawni eu nodau unigol yn ymwneud â dymuno cynorthwyo pobl fel y gall pawb barhau i gael eu cynnwys a chyfrannu'n weithredol at fywyd eu cymuned. Rydym yn cynnal cyfarfodydd Rhwydwaith Sir Ddinbych Ymwybodol o Ddementia bob yn ail fis ac mae hynny'n galluogi cymunedau sy'n deall dementia i ddod at ei gilydd i rannu syniadau a chynorthwyo ei gilydd i alluogi eu cymunedau sy'n deall dementia i ddatblygu a ffynnu."

Dywedodd Dilwyn Jones, Cadeirydd Dinbych sy'n Deall Dementia:

"Roedd yn anrhydedd i mi ddod yn Gadeirydd Dinbych sy'n Deall Dementia a bod yn rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth yn lleol, trwy sesiwn wybodaeth. Rydym wedi gallu rhoddi eitemau megis teclynnau Alexa a chathod a chŵn robotig i helpu'r sawl sy'n byw gyda dementia a'u gofalmwyr."

Gall cymunedau sy'n cyfranogi yn y cynllun gael cydnabyddiaeth am eu hymdrechion, a gallai hynny gynnwys:

- Hyfforddiant ar gyfer staff mewn busnesau lleol
- Arwyddion eglur a hawdd eu deall o amgylch y dref

Gweithgareddau deall dementia



Ar hyn o bryd, mae 12 cymuned yng Ngogledd Cymru yn cael eu cydnabod am eu cynnydd tuag at ddod yn gymunedau sy'n deall dementia, o Ynys Môn i Wrecsam. Rhagwelir y bydd 12 cymuned arall yn ystyried cyflwyno cais am achrediad statws cymuned sy'n deall dementia yn ystod 2025.

Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun:

- Cynorthwywyd dros 1,000 o bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr di-dâl trwy grwpiau dementia.
- Mynychodd mwy na 150 o bobl sesiynau hyfforddiant ynghylch dementia.

Dywedodd dros 1,400 o bobl fod ganddynt wybodaeth well am wasanaethau dementia yn eu cymuned.

Dywedodd un unigolyn sy'n byw gyda dementia:

"Mae bod yn rhan o gymuned sy'n deall dementia yn helpu i sicrhau y caiff eich llais ei glywed. Mae hynny hefyd wedi helpu i hyrwyddo'r grŵp Precious Memories yn y Rhyl sy'n cynnal cyfarfodydd wythnosol ac sy'n ffynhonnell werthfawr o gymorth gan gymheiriaid i bobl."

Mae hwn yn un o nifer o gynlluniau a gyflwynwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (RPB) a'u partneriaid, sy'n gweithio i sicrhau bod cymunedau'n fwy cynhwysol a grymusol:

[https://
www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/
bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-
cymru/](https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru/)

I gael rhagor o fanylion am Gynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia Gogledd Cymru a sut i gyflwyno cais, trowch at:

[https://
www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/
dementia/](https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/dementia/)

Newyddion cysylltiedig: [Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i gydnabod fel y Cyngor sy'n Deall Dementia cyntaf yng Ngogledd Cymru](#)

I gael rhagor o wybodaeth am waith DVSC, trowch at: <https://www.dvsc.co.uk/cy/>





**Partneriaeth
Ranbarthol
Gorllewin
Morgannwg**

**West
Glamorgan
Regional
Partnership**

Tŷ Westfield: Gwasanaeth Camu i Lawr Cefnogol yng Ngorllewin Morgannwg

Gwasanaeth camu i lawr arbenigolyw Tŷ Westfield. Mae wedi'i deilwra ar gyfer oedolion hŷn sy'n byw gyda dementia sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiweddar ac y mae angen cymorth ychwanegol ac asesiad arnynt cyn iddynt drosglwyddo i ofal tymor hwy neu symud yn ôl adref.

Mae'r cyfleuster 8 gwely yn ardal Waunarlwydd yn Abertawe yn pontio'r bwlch rhwng yr ysbyty a'r cartref, gan roi amser i breswylwyr wella, adfer eu hyder ac ymgysylltu â chymorth ymwybyddiaeth o ddementia wedi'i deilwra mewn lleoliad diogel dros dro.

Fel rhan o fodel Dychwelyd Adref o'r Ysbyty y rhanbarth (sydd wedi'i ailino â'r llwybr Rhyddhau i Adfer yna Asesu Cenedlaethol (D2RA)), mae Tŷ Westfield wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Ers cychwyn y gwasanaeth yn 2023, mae wedi cefnogi 83 o bobl sydd wedi gadael yr ysbyty i adennill eu hannibyniaeth.

Dyfyniad gan Alison Bromfield, Rheolwr Prosiect (Ailfodelu Gwasanaeth) Cyngor Abertawe:

"Mae Tŷ Westfield yn ymwneud â rhoi amser, urddas a chefnogaeth i bobl fel y gallant wella ar ôl arhosiad yn yr ysbyty. Mae ein tîm yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bob unigolyn, ac rydym yn gweld gwahaniaeth anhygoel mewn hyder a lles pobl mewn cyfnod byr o amser."

Mae unigolion yn cael y cyfle i wneud y tasgau cyffredin, beunyddiol sy'n golygu cymaint, wrth fwynhau preifatrwydd eu hystafell eu hunain mewn awyrgylch cartrefol. Gall anwyliaid hefyd ymweld a chynnal cyswllt mewn man cyfforddus a chroesawgar.

Mae Tŷ Westfield yn enghraifft wych o sut mae buddsoddiad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn gwneud gwahaniaeth drwy alluogi pobl i adeiladu ar eu cryfderau a chyflawni eu nodau iechyd a lles personol.

I weld y stori ddigidol, ewch i: <https://vimeo.com/910163424?fl=pl&fe=sh>



**Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol
Gorllewin Cymru**

**West Wales
Regional Partnership
Board**

Taflu goleuni ar Ofal Cymunedol Integredig yng Ngorllewin Cymru

Ar ddydd Mawrth, Mawrth 11eg, 2025, cynhaliwyd cynhadledd flynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (WWRPB) ynghyd â Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru yn Parc y Scarlets. Eleni, roedd y ffocws ar "Gofal Cymunedol Integredig", gan bwysleisio'r angen am ofal cydgysylltiedig, cydweithredol a hygyrch yn ein cymunedau lleol.

Daeth y digwyddiad â dros 150 o randdeiliaid ynghyd, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sefydliadau'r trydydd sector, gwirfoddolwyr ac arweinwyr cymunedol, i gyd wedi'u huno gan ymrwymiad ar y cyd i wella lles trigolion Gorllewin Cymru. Roedd y prif siarawyr - Cadeirydd WWRPB, Hazel Lloyd Lubran a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS, yn tynnu sylw at ddatblygiadau a heriau lleol a chenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn y brif ystafell, cafodd mynychwyr gyfle i archwilio ystod o brosiectau, a stondinau gwybodaeth gan y trydydd sector.



O glustffonau gofal a VR sy'n arddangos eu technoleg ar gyfer gwella bywydau unigolion yng Ngorllewin Cymru, i'r oriel VC sy'n arddangos eu gwaith cymunedol gyda grwpiau poblogaeth amrywiol ledled Sir Benfro, roedd pob stondin yn amlygu'r cyfraniadau trawiadol sy'n cael eu gwneud yn ein cymunedau.

Trwy gydol y dydd, roedd mynychwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau craff, gan archwilio strategaethau arloesol ac arferion gorau ar gyfer ystod o bynciau pwysig, gan gynnwys:

- Gofalwyr di-dâl a'r rhai sy'n byw gyda dementia
- Datblygiadau cyfalaf
- Heriau'r gweithlu
- Y broses gartref o'r ysbyty
- Effeithiau AI ar blant a phobl ifanc

Yn ddiweddarach yn y prynhawn cynhaliwyd Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol blynyddol Gorllewin Cymru. Roedd y gwobrau'n dathlu'r unigolion a'r timau y mae eu hymroddiad a'u tosturi yn siapiau ein cymuned yn gadarnhaol.

Mae crynodeb llawn o'r diwrnod ar gael yma:
**Crynodeb o Gynhadledd a Gwobrau WWRPB
2025 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Gorllewin Cymru**

Hoffem hefyd rannu ein diolch i RADIO BGM am ddarlledu uchafbwyntiau'r Cynhadledd a Gwobrau WWRPB, sy'n cynnwys recordiadau o'r siaradwyr, Holi ac Ateb yr RPB, stondinau gwybodaeth ac enwebeion gwobrau. **Mae'r recordiad llawn (heb ychwanegu cerddoriaeth) 'w weld ar y ddolen yma: Sain Cynhadledd a Gwobrau WWRPB 2025**

Cynhadledd Dementia Gorllewin Cymru 2025

Cynhaliwyd Cynhadledd Dementia Gorllewin Cymru 2025 yng Nghanolfan Halliwell yng Nghaerfyrddin ar 1 Gorffennaf.

Roedd Cynhadledd Dementia Gorllewin Cymru yn cynnig cyfle pwysig i dros 120 o fynychwyr ail-grwpio, adolygu a myfyrio ar y cynnydd a wnaed ar draws y rhanbarth drwy'r Llwybr Llesiant Dementia, yn ogystal a thrafod datblygu Cynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan wedi'i adnewyddu, a ddisgwylir yn 2026/27.

Croesawom Hazel Lloyd Lubran, Prif Swyddog Gweithredol CAVO a Chadeirydd WWRPB i roi anerchiad agoriadol i'r gynhadledd. Yna gosododd Naomi McDonagh a James Severs y llwyfan drwy gyflwyno'r Gwasanaeth Lles Dementia Rhanbarthol a'r cynllun ar gyfer y diwrnod.

Nesaf, darparodd Gemma Emile gyflwyniad manwl ar y Llwybr Diagnostig Dementia Rhanbarthol (a elwid gynt yn MAS). Roedd ei chyflwyniad yn arbennig o effeithiol gan ei fod yn canolbwyntio ar y mewnwelediadau a gafwyd drwy wrando ar leisiau pobl sydd â phrofiad byw.

Cyflwynodd Aranwen Ellacott y Gwasanaeth Cysylltydd Dementia Rhanbarthol, a ddarperir gan Age Cymru Dyfed, lle mae gan bobl sydd newydd gael diagnosis o ddementia yng Ngorllewin Cymru bwynt cyswllt (cysylltydd) a enwir, o'r adeg o ddiagnosis hyd at ddiwedd oes neu dderbyn gofal.

Mae 'Dementia Wellbeing Connectors' yn gyfrifol am gyd-gynhyrchu cynlluniau lles a darparu cefnogaeth barhaus i unigolion sy'n byw yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Siaradodd Charlotte Duhig am rôl hanfodol Nyrsys Admiral wrth gefnogi gofalcwyr di-dâl drwy gydol y llwybr dementia. Mae'r gwasanaeth Nyrsio Admiral mewn partneriaeth â Dementia UK ac yn rhan o Wasanaeth Lles Dementia

Gorllewin Cymru, gan chwarae rôl allweddol wrth reoli cymhlethdod a straen teuluol/gofalcwyr yn ataliol, er mwyn atal chwalfa ac argyfwng.

Clywsom hefyd gan Peter Clarke a Damian Murphy, a gyflwynodd yr hyfforddiant 'Bywyd Da gyda Dementia'. Mae'r fenter hon yn arbennig gan ei bod wedi'i chreu gan bobl sy'n byw gyda dementia i helpu eraill sy'n byw gyda dementia. Mae'n gwrs 6 wythnos sy'n dechrau ym mis Medi yn Rhydaman. Mae'n agored i atgyfeiriadau, gweler y poster isod. Dechreuodd sesiwn y prynhawn gyda sylwadau agoriadol gan Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Yn dilyn hyn, rhoddodd y tîm y tu ôl i'r adnodd amlddisgyblaethol 'Regional Advanced Practice Dementia' drosolwg o'r gwaith y maent yn ei wneud, gan gynnwys;

- Ymchwil ac Arloesi
- Ymyrraeth Ôl-Ddiagnostig
- Rhaglen Sylfeini mewn Lles Dementia
- Safonau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol
- Y Fframwaith Dysgu a Datblygu Rhanbarthol

Cymuned Ymarfer Rhanbarthol ar gyfer Hyfforddwyr Datblygu Ymarfer Dementia Y tîm- Beca Stilwell, Ellen Turrell, Karen Shearsmith-Farthing, Alexandra (Lexi) Rees, Rosey Meiring, Helen Rawlinson, a Rosie Roberts- hefyd uchelgeisiau a heriau, gan gynnwys llais hanfodol profiad byw drwy gydol y drafodaeth.

Fe wnaethom orffen y diwrnod gyda sesiwn holi ac ateb lle gallai mynychwyr ofyn cwestiynau i'r holl siaradwyr. Daeth y digwyddiad i ben yn swyddogol gyda sesiwn Cyfeillion Dementia, a oedd yn ffordd wych o orffen y diwrnod, dan arweiniad Angela Reid, Swyddog Datblygu Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Henoed a Dementia o Sir Benfro, PAVS.

I'r rhai a gollodd allan neu sy'n dymuno ail-wyllo, mae pob cyflwyniad o'r diwrnod bellach ar gael ar -lein YMA. [Cynhadledd Dementia Gorllewin Cymru 2025 – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru](#)

Gwefannau'r BPRh



Os oes gennech stori yr hoffech ei hamlygu yn rhifyn nesaf y cylchlythyr,
anfonwch eich straeon at:



Partneriaethacintegreiddio@llyw.cymru